# YSGOL DYFFRYN TRANNON, TREFEGLWYS
## Cylchlythyr / Newsletter
## Hydref / October 2021

Annwyl Rieni

**Noson Rieni**
Cynhaliwyd ein noson rieni dros Teams y tymor diwethaf, byddwn yn dilyn yr un drefn unwaith eto y tymor hwn. Mae'n gyfle i glywed sut mae eich plentyn wedi ymgartrefu ym mywyd yr ysgol ers mis Medi ac i gael sgwrs gydag athrawes dosbarth. Cynhelir y cyfarfodydd hyn ar 8fed a'r 9fed o Dachwedd yn bennaf gyda rhai amserau ar gael ar 10fed o Dachwedd ar gyfer dosbarthiadau mwy. Ar ddechrau'r hanner tymor nesaf, anfonir dolen atoch i drefnu'r cyfarfod, drwy Seesaw. Os byddai'n well gennych gael galwad ffôn, cysylltwch ag athrawes dosbarth eich plentyn yn uniongyrchol, i drefnu hyn.

**#HelloYellow**
Diolch yn fawr am anfon eich plant i'r ysgol yn gwisgo rhywbeth melyn! Roedd yn hyfryd gweld llu o felyn yn ystod ein gwasanaeth. Yn ystod y dydd, canolbwyntiwyd ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Rwy'n falch o ddweud wrthych ein bod wedi codi £104 a fydd yn mynd i 'YoungMinds'. Diolch yn fawr iawn.

**Urdd**
Eleni, mae'r Urdd yn dathlu ei chanmlwyddiant felly, beth am ymuno yn yr hwyl! Mae dal yn gyfnod ansicr iawn ond mae'r Urdd yn cynnig ystod eang o weithgareddau i'w haelodau – chwaraeon, y celfyddydau, cystadlu, antur a chymdeithasu. I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen.
https://www.urdd.cymru/en/join/

**Cynhaeaf**
Yn anffodus, ni allwn ymweld â'r Eglwys unwaith eto eleni ar gyfer ein gwasanaeth Diolchgarwch. Fodd bynnag, hoffem gefnogi ein cymuned drwy gasglu rhoddion ar gyfer y banc bwyd yn Llanidloes – 'Llani Pantry'. Felly, rydym yn gofyn a allai disgyblion ddod ag eitem o fwyd fel te, coffi, grawnfwyd, pasta / reis, tuniau neu eitemau eraill e.e. papur toiled, siampŵ ayyb i'r ysgol yn ystod yr wythnos gyntaf yn ôl ar ôl yr hanner tymor (dim eitemau bwyd ffres). Bydd bocs yn y fynedfa i ddisgyblion medru roi eu rhoddion.

**Diweddariad Covid-19**
Yr wyf yn falch o'ch hysbysu bod dosbarthiad risg Ysgol Dyffryn Trannon yn 'ISEL' ar hyn o bryd. Er mae'r sefyllfa yn newid yn wythnosol. Ar hyn o bryd, mae'n golygu yn raddol, rheoledig gallwn llacio mesurau penodol o fewn yr ysgol. Gan mai dim ond wythnos sydd tan hanner tymor, byddwn yn parhau gyda'r mesurau risg presennol ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn dilyn yr hanner tymor. Hoffwn ddiolch i chi am ein helpu drwy ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar hunanynysu a phrofi pan fo 'r angen.
Byddwn dal i ofyn i'r rhieni / gofalwyr wisgo masgiau / gorchuddion wyneb ar ddechrau a diwedd y dydd a'u hatgoffa hefyd i gadw pellter cymdeithasol.

**23 a 24 Hydref - Gŵyl Bwmpen Llanidloes**
Amgaeaf wybodaeth gan y trefnwyr, ynglŷn â'r ŵyl Pwmpen sy'n cael ei chynnal yn Llanidloes. Roedd y plant wedi mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau coginio yn fawr iawn a gobeithiwn weld y ryseitiau yn y llyfr coginio elusennol yn fuan iawn.

**Dyddiadau allweddol**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Gwener 22 Hydref | - | Diwrnod olaf cyn hanner tymor |
| Dydd Llun 1 Tachwedd | - | Yn ôl i'r ysgol |
| 8 – 10 Tachwedd | - | Nosweithiau Rhieni |
| Dydd Gwener 19 Tachwedd | - | Plant Mewn Angen |

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr hanner tymor diwethaf. Gobeithio y cewch chi hanner tymor bleserus - gan gofio ein bod yn gorffen ar 22.10.2021 ac yn dychwelyd i'r ysgol dydd Llun 1af o Dachwedd 2021.

Dear Parents

**Parents' Evening**
Our last parents' evening was held virtually and we will be holding our meeting over Teams once again this term. It's an opportunity to hear how your child has settled into school life since September and to have a chat with their class teacher. These meetings will take place on 8th and 9th November primarily with some bookings available on 10th November for larger classes. At the beginning of next half term, you will be sent a link to arrange a meeting, via Seesaw. If you would prefer a telephone call, please contact your child's class teacher directly, to arrange.

**#HelloYellow**
A big thank you for sending your children to school wearing something yellow! It was lovely to see all different shades of yellow during our assembly. During the day, there was a focus on mindfulness and young people's mental health and well-being. I'm pleased to tell you that we raised £104 which will go to 'YoungMinds'. Thank you for your donations.

**Urdd**
This year, the Urdd is celebrating its centenary so why not join in the fun! It is still a very uncertain time but the Urdd offers its members a wide range of activities – sport, arts, competing, adventure and socialising.
For more information, click on the link. https://www.urdd.cymru/en/join/

**Harvest Time**
Unfortunately, we are unable to visit the Church once again this year for our annual Harvest Thanksgiving. However, we would like to support our community through collecting donations for the food bank in Llanidloes – 'Llani Pantry'. Therefore, we are asking if pupils could bring a food item such as tea, coffee, cereal, pasts / rice, tins or items such as toilet paper, shampoo etc, to school during the first week back after the half term (no fresh food items). There will be a box in the entrance area for pupils to put their donations.

**Covid-19 update**
I am pleased to inform you that Ysgol Dyffryn Trannon's risk classification is currently 'LOW'. This can change on a weekly basis. This means that we can carefully manage a gradual, controlled easing of certain measures within school. With only a week until half term, we will maintain current risk measures but will review the position following the half term break. I would like to thank you for helping us by following the Welsh Government guidance on self-isolation and testing when required.

We will still request that masks / face coverings are worn by parents / carers at the beginning and end of the day and a reminder also to maintain social distancing.

**23rd and 24th October - Llanidloes Pumpkin Festival**
Please find attached information from the organisers, regarding the Pumpkin festival being held in Llanidloes. The children thoroughly enjoyed taking part in the cooking activities and we hope to see the recipes featured in the charity cookbook very soon.

**Dates for the diary**

| | | |
|---|---|---|
| Friday 22 October | - | Break up for half term |
| Monday 1 November | - | Back to school |
| 8 – 10 November | - | Parents' Evenings |
| Friday 19 November | - | Children in Need |

Thank you for your support during the last half term. I hope that you have a good half term – remembering that we break up 22.10.2021 and return to school on Monday 1st of November 2021.

Yn gywir / Yours sincerely

Caroline Harries
Pennaeth / Headteacher